



Canolfan Ymchwil

Dwyieithrwydd gwerth £5m

Mcanolfan newydd gwerth £5m wedi cael ei sefydlu yn y Brifysgol er mwyn astudio dwyieithrwydd a thrwy hynny wedi rhoi mwy fyth o amlygrwydd i Fangor fel canolfan rhagoriaeth mewn ymchwil academiaidd.

Meddai'r Athro Merfyn Jones, Is-Ganghellor Bangor: "Bydd y ganolfan hon yn dod ag arbenigwyr dwyieithrwydd mwyaf blaenllaw'r byd at ei gilydd. Bydd academyddion o'r Ysgol Ieithyddiaeth, yr Ysgol Seicoleg a'r Ysgol Addysg yn cyfrannu at waith y ganolfan ymchwil dros gyfnod o bum mlynedd, gan edrych ar y berthynas rhwng dwy iaith siaradwyr dwyieithog mewn cymunedau dwyieithog o fewn y DU ac yn rhyngwladol.

"Mae'r buddsoddiad hwn yn dangos hyder arbennig ym Mangor ar ran y Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol, Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru a Chynulliad Cenedlaethol Cymru. sy'n cyd-gyllido'r ganolfan."

Cyfarwyddwr y Ganolfan yw'r Athro Margaret Deuchar, o'r Ysgol Ieithyddiaeth ac Iaith Saesneg ac mae'r Athro Colin Baker o'r Ysgol Addysg a'r Athro Virginia Gathercole o'r Ysgol Seicoleg yn Gyd-Gyfarwyddwyr. Meddai'r Athro Margaret Deuchar: "Mae hwn yn ddatblygiad o bwys a does dim dwywaith na fydd yn dylanwadu ar ganfyddiad y cyhoedd o ddwyieithrwydd ac ar bolisiau iaith ac addysg nid yn unig yng Nghymru ond trwy'r byd i gyd.



Daeth dros fil o ddisgyblion ysgol o bob cwr o Ogledd Orllewin Cymru ynghyd ym Mhrifysgol Bangor yn ddiweddar i gymryd rhan mewn deuddydd o hwyl gwyddoniaeth. Cyflwynodd Ysgolion Gwyddoniaeth y Brifysgol amrywiaeth wch o weithgareddau ymarferol a 'sioeau' gwyddoniaeth er mwyn ysgogi diddordeb y plant yn y gwyddorau. Cafwyd cymorth rhaglen Prifysgol Caerdydd "Science Made Simple" gyda'u sioe Cartoon Science a chan Techniquet.

"Bydd ein hymchwil yn elwa o'r ffaith ein bod wedi ein lleoli mewn cymuned ddwyieithog, a bydd yn ein galluogi i ymestyn ein harbenigedd i gymunedau dwyieithog eraill."

Meddai'r Athro Virginia Gathercole: "Byddwn yn cynnal astudiaethau ar faterion damcaniaethol megis gwybodaeth ieithyddol pobl ddwyieithog am eu dwy iaith ac unrhyw ryngweithio posib rhwng yr ieithoedd hynny, sail niwrolegol dwyieithrwydd, datblygiad iaith pobl ddwyieithog, a

manteision gwybyddol dwyieithrwydd drwy gydol bywyd."

Meddai'r Athro Colin Baker: "Mae'r ganolfan hon yn gosod Cymru a'r Brifysgol ar flaen yr ymchwil ryngwladol ar ddwyieithrwydd. Mae Cymru'n cael ei hystyried yn arweinydd byd ym maes cynllunio iaith ac addysg ddwyieithog. Mae'r Ganolfan hon yn dathlu'r arweiniad hwnnw a bydd yn sicrhau bod Cymru'n parhau i arloesi a gwella polisi ac ymarfer dwyieithog yn genedlaethol ac yn rhyngwladol."

Yn fyr

CLYCHAU NEWID

Mae switsfwrdd presennol y Brifysgol wedi cyrraedd oed ymdeol ar ôl 21 flynedd o wasanaeth ffyddlon, ac mae cynlluniau ar droed ers rhai misoedd i adnewyddu'r system. Bu ymgynghorwyr arbenigol ym maes telathrebu yn dadansoddi anghenion cyfathrebu'r Brifysgol, ac maent wedi argymhell buddsoddi mewn 'Protocol Rhynggrwyd Troslais' (VoIP). Mae'r dechnoleg newydd hon yn cymhwyso pŵer y Cyfrifiadur Personol bwrdd gwaith at y system ffôn, gan gynnig llaisbost, cynadledda hwylus a llawer o nodweddion eraill. Bydd y gwaith o osod y system yn cychwyn yn yr haf, a bydd yn parhau ochr yn ochr ag ailddatblygu'r Ystâd.

CANMLWYDDIANT

Mae cynlluniau ar y gweill i nodi canmlwyddiant gosod carreg sylfaen Prif Adeilad y Brifysgol yn ystod yr haf – mewn digwyddiad a fydd yn ail-greu'n rhannol y seremoni a gynhaliwyd yn 1907. Mehefin 7 yw'r dyddiad a awgrymwyd er na chafwyd cadarnhad eto. Bwriad y seremoni yw rhoi amlygrwydd i'r adeilad hanesyddol hwn y bydd y gwaith o'i adfer yn un o brif dargedau ymgyrch codi arian newydd y Brifysgol.

LOTERI GOBAITH

Ydych chi wedi ymuno â Loteri Tŷ Gobaith eto? Hyd yma mae naw o enillwyr misol wedi derbyn rhwng £10 ac £115 ac mae Tŷ Gobaith wedi derbyn £442. Mae'r niferoedd sy'n cymryd rhan yn cynyddu pob mis- sy'n newyddion da i bawb! Nid yw'n rhy hwyr i ymuno â'r cynllun. Ewch i <http://www.bangor.ac.uk/tygobaith/registrationform.php.en>. Codwyd £1,876 i Dŷ Gobaith hefyd o ganlyniad i'r diwrnod 'Talu am Barcio' a gynhaliwyd y llynedd.

BWRSARIAETHAU AC YSGOLORIAETHAU

Bwrsariaethau

Mae dau gant o fyfyrwyr blwyddyn gyntaf yn y Brifysgol wedi derbyn sieciau gwerth cyfanswm o £365,000, fel rhan o Gynllun Bwrsariaethau Mynediad 2006. Mae gwerth y bwrsariaethau'n amrywio o £1,000 - £3,000 ac maent wedi eu dyfarnu i fyfyrwyr sy'n dangos 'y potensial i lwyddo ym Mangor.' Y bwriad yw cynnig cymorth ariannol ychwanegol i fyfyrwyr.

Ysgoloriaethau

Hefyd mae 12 o fyfyrwyr dwyieithog sy'n dilyn cyrsiau amgylcheddol wedi derbyn Ysgoloriaethau Amgylcheddol gwerth cyfanswm o £15,000 yn ddiweddar. Mae'r Ysgoloriaethau, sy'n cael eu noddi gan y Cyngor Cefn Gwlad ac Asiantaeth yr Amgylchedd, yn agored i unrhyw fyfyrwr dwyieithog sy'n dilyn cwrs gradd gyntaf neu ôl-radd ym maes yr amgylchedd, ac sy'n gwneud elfennau o'r cwrs trwy gyfrwng y Gymraeg. Nod y cynllun yw cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg mewn swyddi proffesiynol yn y maes.

DIDDORDEB RHYNGWLADOL



Cymerodd chwe myfyriwr rhyngwladol o Fangor ran yn Nathliadau Diwrnod y Gymanwlad a drefnwyd gan Gangen Cymru o Gymdeithas Seneddol y Gymanwlad ac a gynhaliwyd yn y Cynulliad Cenedlaethol yn ddiweddar. Trefnwyd y gynrychiolaeth o Fangor gan y Cynghorydd Lles Myfyriwr Rhyngwladol, Alan Edwards.

Yn Adeilad Senedd y Cynulliad gwelir (cefn chwith-de): Rajesh Daswani, (India, yn astudio ar gyfer MBA mewn Bancio a Chyllid) a Stacey

Cateau, (Trinidad a Tobago, yn astudio ar gyfer MSC mewn Gwyddor Chwaraeon); yn y tu blaen chwith-de gwelir: Patrena Brookes, (Jamaica, yn astudio ar gyfer MA mewn Bancio a Chyllid), Abdullah Ali (Maldives, yn astudio ar gyfer BA mewn Cyfrifeg a Chyllid) Mark Lungu (Malawi, yn astudio ar gyfer PhD mewn Bancio). Nid yw Fariha Javed (Pakistan, myfyriwr MA mewn Ymchwil Gymdeithasol a Pholisi Cymdeithasol) yn y llun.

BANGOR YN ENNILL 'OSCARS' BUSNES



Chwith:

Yn cael eu llongyfarch gan y Gweinidog yn y Seremoni Wobrwyo y mae: (Ch-dd) Dr Richard Edwards, yr Ysgol Cyfrifiadureg, Mr Bryn Jones, Porth Arloesi Bangor a Ms Wendy Wedmore ac Aelod Cysylltiol PTG Mr Edmond Yau, o Vision Support Trading Cyf.

Isod:

Hefyd yn cael eu llongyfarch gan y Gweinidog y mae Mr Bryn Jones, Mr Adrian Moorhouse MBE, yr Athro Lew Hardy, Ysgol Gwyddorau Chwaraeon, Iechyd ac Ymarfer ac Aelod Cysylltiol PTG, Mark Gittins.

Cafodd Prifysgol Bangor ei chydabod fel y Brifysgol orau ym Mhrydain am feithrin partneriaethau llwyddiannus gyda busnesau mewn seremoni bwysig yn Llundain yn ddiweddar.

Mewn seremoni wobrwyo yn Llundain cyflwynodd Y Gwir Anrh. Margaret Hodge MBE, Gweinidog Diwydiant a'r Rhanbarthau, y wobwr am y Bartneriaeth Trosglwyddo Gwybodaeth orau yn y DU i Vision Support Trading Cyf. a Phrifysgol Bangor. Gwobrwywyd partneriaeth Prifysgol Bangor gyda Lane4 Management Cyf hefyd fel un o'r pum partneriaeth orau yn Lloegr. Llongyfarchodd y Gweinidog bawb oedd wedi cymryd rhan a chanmol y partneriaethau am eu holl lwyddiant. Cyflwynwyd y gwobrau yn Seremoni Partneriaethau Trosglwyddo Gwybodaeth 2007 ym mis Mawrth. Roedd y digwyddiad yn dathlu llwyddiannau rhaglenni sydd wedi cynorthwyo busnesau i allu cystadlu'n well a bod yn fwy cynhyrchiol drwy wneud gwell defnydd o'u gwybodaeth, eu technoleg



a'u sgiliau o fewn prifysgolion a cholegau Prydain. O'r naw gwobr a gyflwynwyd, rhoddwyd dwy i Brifysgol Bangor.

Dywedodd yr Athro Merfyn Jones, Is-Ganghellor y Brifysgol: "Rydym yn falch iawn o'r ffaith fod Bangor, o'r holl Brifysgolion ar draws Prydain, nid yn unig wedi ennill un wobwr ond dwy. Mae'n gamp ryfeddol ac yn amlygu ansawdd y gwaith ymchwil sy'n cael ei wneud gan ein hacademyddion a'i berthnasedd i'r byd busnes."

Meddai Bryn Jones, Rheolwr PTG y Brifysgol: "Mae Prifysgol Bangor wedi

datblygu enw ardderchog oherwydd ei gweithgareddau trosglwyddo gwybodaeth. Mae'r gwobrau hyn yn cydnabod y pwyslais yr ydym yn ei osod ar weithio mewn partneriaeth gyda busnesau."

Mae partneriaeth Vision Support Trading Cyf. a'r Ysgol Cyfrifiadureg wedi cael effaith sylweddol ar berfformiad y cwmni tra bod y bartneriaeth rhwng Lane4 Management Cyf. a'r Ysgol Gwyddorau Iechyd, Chwaraeon ac Ymarfer wedi galluogi'r Ymgynghoriaeth Datblygu Perfformiad i aros ar y blaen o ran ymchwil wyddonol gadarn.

CYMRODORIAETHAU ER ANRHYDEDD, 2007

Mae'r Brifysgol wedi cyhoeddi enwau'r unigolion y dyfarnir Cymrodoriaethau er Anrhydedd y Brifysgol iddynt yn ystod y seremonïau graddio ym mis Gorffennaf eleni. Cymrodoriaeth er Anrhydedd yw'r anrhydedd fwyaf y gall y Brifysgol ei rhoi. Mae'n cydnabod unigolion sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig o fewn eu maes dewisol ac sydd â chysylltiad â Chymru neu â'r Brifysgol.

Dr. Edward John James Davies OBE

Meddyg teulu wedi ymddeol o Sir Ddinbych; hanesydd meddygol: *Am wasanaeth i'r gymuned*

Owain Arwel Hughes OBE

Prif Arweinydd Cysylltiol y Gerddorfa Ffilharmonig Frenhinol, a sylfaenydd y 'Proms Cymreig': *Am wasanaeth i Gerddoriaeth*

Rhys Ifans Actor a seren ffilmiau a fagwyd yn Rhuthun: *Am wasanaeth i'r diwydiant ffilmiau*

Siân James Graddiodd ym Mangor. Cantores a cherddor ym maes cerddoriaeth werin Gymreig: *Am wasanaeth i'r celfyddydau perfformio*



*Rhys Ifans,
Actor a seren ffilmiau*

Dr. Owen T. Jones Graddiodd ym Mangor. Rheolwr Gyfarwyddwr ac un o'r partneriaid a sylfaenodd Ambiensis Cyf., cwmni technoleg amaeth-amgylcheddol: *Am wasanaeth i wyddoniaeth a diwydiant*

Dr. David Pritchard Bu'n Gyfarwyddwr Meddygol Ymddiriedolaeth GIG Gogledd Orllewin Cymru tan ei ymddeoliad yn ddiweddar: *Am wasanaeth i addysg feddygol*

David Richards CBE Enillydd Pencampwriaeth Rali'r Byd 1981 a bellach yn Gadeirydd ac yn Brif

Weithredwr Grŵp Prodrive; yn enedigol o Ruthun: *Am wasanaeth i chwaraeon a busnes*

Yr Athro Stefan Rahmstorf

Myfyriwr ôl-raddedig ym Mangor 1982/83 a bellach yn Athro Ffiseg y Cefnforoedd ym Mhrifysgol Potsdam. Aelod o'r Panel Rhynglywodraethol ar Newid yn yr Hinsawdd: *Am wasanaeth i wyddor yr amgylchedd*

Yr Athro Emeritws J. Gwynn Williams, CBE

Graddiodd ym Mangor. Bu'n Athro Hanes Cymru ac yn Ddirprwy Brifathro Prifysgol Bangor: *Am wasanaeth i astudiaethau hanes*

Iolo Williams Cyflwynydd BBC ac arbenigwr ar fyd natur: *Am wasanaeth i astudiaethau bywyd gwyllt*

Cymrodoriaethau Dysgu:

Dyfernir Cymrodoriaethau Dysgu yn ystod y seremonïau Graddio, ac eleni byddant yn cynnwys Cymrodoriaethau Dysgu Cysylltiol hefyd. Bydd y rhain yn gwobrwyo cyfraniad staff sydd wedi cefnogi myfyrwyr neu wedi cynorthwyo i weinyddu cyrsiau a gweithgareddau.



BLAS RHYNGWLADOL

Bu aelodau o'r Gymdeithas Indiaidd yn perfformio dawnisiau traddodiadol a 'Bollywood' mewn Noson Ryngwladol a gynhaliwyd gan y Ganolfan Gwasanaethau Myfyrwyr yn y Brifysgol yn ddiweddar. Cafwyd perfformiadau hefyd o ganeuon traddodiadol a phoblogaidd o Japan a Tsieina, gan aelodau o'r Gymdeithasau perthnasol, ynghyd â darlleniad o farddoniaeth serch boblogaidd o Bacistan. Daeth y noson i ben gyda chaneuon Cymraeg gan Gôr JMJ. Cafodd y gynulleidfa gyfle hefyd i edrych ar stondinau gwybodaeth am rai o wledydd cartref myfyrwyr rhyngwladol y Brifysgol, a chael tamaid o luniaeth.

Mae'r Noson Ryngwladol yn dilyn Derbyniad i fyfyrwyr o India, y cyntaf mewn cyfres o ddigwyddiadau sy'n rhoi cyfle i fyfyrwyr o wledydd tramor a staff y Brifysgol i gyfarfod mewn amgylchedd anffurfiol.

Y BRIFYSGOL BRYDEINIG YN KUWAIT



Dr Abdul Aziz Sayed Ali, Cadeirydd Bwrdd Llywodraethwyr y Brifysgol Brydeinig a'r Is-Ganghellor, yr Athro Merfyn Jones yn llofnodi'r cytundeb.

Mae'r Brifysgol Brydeinig gyntaf i'w hagor yn Kuwait yn cael ei sefydlu gyda chymorth staff ac academyddion o Brifysgol Bangor. Ysgol Busnes Bangor yw'r grŵp academaidd o Fangor a fydd yn arwain y cynllun hwn.

Sefydliad preifat yw'r 'Brifysgol Brydeinig yn Kuwait' fydd yn cynnig graddau ym meysydd busnes a rheolaeth yn bennaf. Bydd y cyrsiau gradd cyntaf yn cychwyn yn Ionawr 2008.

Bu'r Athro Merfyn Jones, Is-Ganghellor Prifysgol Bangor, yn bresennol mewn seremoni i nodi'r achlysur yn Llysoedd Prydain yn Kuwait. Ar ôl y seremoni rhoddwyd derbyniad yn y Llysoedd gan Dywysog Cymru.

Meddai'r Athro Merfyn Jones: "Mae hon yn fenter unigryw ar ran Bangor ac rydym yn hynod falch o gynorthwyo i sefydlu prifysgol newydd sbon yn Kuwait.

Yr hyn fyddwn yn ei wneud i ddechrau fydd cynghori a chynorthwyo i ddatblygu rhaglenni gradd, ond rydym yn gobeithio'n fawr iawn y bydd y project yma'n arwain at gydweithio rhwng staff a myfyrwyr o Gymru a Kuwait mewn ysbryd o bartneriaeth am sawl blwyddyn i ddod."

Bydd y brifysgol newydd yn wahanol i brifysgolion presennol Kuwait gan y bydd yn darparu addysg arbenigol ac yn efelychu ansawdd uchel system addysg israddedig Prydain.

Meddai'r Athro Ted Gardener, Cyfarwyddwr Ysgol Busnes Bangor: "Bydd y brifysgol newydd yma'n cynnig addysg drydyddol o safon uchel, ac yn cynhyrchu graddedigion â sgiliau sylweddol ym mhob maes busnes.

Rydym yn rhagweld perthynas gref a pharhaol gyda'n cydweithwyr yn Kuwait, gyda llawer o gynlluniau

newydd a chyffrous a fydd o gymorth i gefnogi'r gymuned fusnes ac ariannol."

Meddai Dr Abdul Aziz Sayed Ali o'r Brifysgol Brydeinig yn Kuwait: "Byddwn yn cynnig rhaglenni o ansawdd uchel ar draws amrywiaeth eang o ddisgyblaethau. Wrth ymrwymo i roi addysg o'r safon uchaf bosibl, bydd y Brifysgol yn gwneud pob ymdrech i feithrin craffter a chwilfrydedd deallusol ymysg ei myfyrwyr, yn ogystal â rhoi iddynt y wybodaeth a'r sgiliau hanfodol er mwyn iddynt allu datblygu'n bersonol a chyfrannu i gymdeithas. Mae gennym ymrwymiad cryf hefyd i addysg ôl-radd neu bellach trwy gynnig rhaglen MBA sy'n pwysleisio datblygiad sgiliau proffesiynol, ymchwil ac ysgolheigaidd."

Bydd y brifysgol newydd yn gweithredu i ddechrau o adeiladau yn Ninas Kuwait tra bydd campws newydd yn cael ei adeiladu.



Y Beatles ym Mangor

Mae Acme TV wedi cael comisiwn gan BBC Radio Cymru i gynhyrchu rhaglen ddogfen awr o hyd ar ymweliad y Beatles â Bangor ym 1967.

Tybed a fu unrhyw un ohonoch ym Mangor ar y pryd a chennych atgofion i'w rhannu am y digwyddiad?

Bu'r Beatles ynghyd â'u partneriaid a'u ffrindiau'n bresennol mewn cynhadledd a

gynhaliwyd gan y Gymdeithas Myfyrio Ryngwladol lle'r oedd y Maharishi Mahesh Yogi yn siaradwr gwadd. Cyraeddasant Fangor ar y trên ddydd Gwener Awst 25 a gadael mewn car ar y dydd Sul canlynol.

Ar y diwrnod tyngedfennol hwnnw y clywsant y newyddion bod eu rheolwr a'u ffrind Brian Epstein wedi marw.

Os oes gan unrhyw un ohonoch atgofion am y penwythnos hwnnw, a fydddech mor garedig â gadael ateb neu gysylltu â ni trwy fy nghyfeiriad e-bost, gari@acmetv.net.

Diolch i chi ymlaen llaw. Gari Melville, (Cynhyrchydd Cynorthwyol), Acme TV Cyf. 75, Maes Iago, Pontardawe, Abertawe SA8 4 LR
Ffôn: 01792 862086, 07967 024282

Poblogrwydd y brifysgol yn dal i gynyddu!

Mae'r ffigurau diweddaraf ar gyfer ceisiadau i brifysgolion a ryddhawyd gan UCAS yn dangos bod ceisiadau i astudio ym Mhrifysgol Bangor wedi codi 7.8%, o'i gymharu â gostyn-giad bychan (-0.1%) mewn ceisiadau i sefydliadau addysg uwch eraill yng Nghymru. Dyma'r chweched flwyddyn yn olynol y mae'r Brifysgol wedi gweld

cynydd yn nifer y ceisiadau, ac yn ôl yr Is-Ganghellor, Yr Athro Merfyn Jones, mae'n brawf digamsyniol o lwyddiant cynyddol y Brifysgol.

Yn ôl ffigurau UCAS, Bangor sydd wedi gweld y cynnydd uchaf o'r holl brifysgolion yng Nghymru, yng nghanran y ceisiadau UCAS gan fyfyrwyr

Cartref/ yr UE. Yn sgil trefn ganolog newydd ar gyfer derbyn myfyrwyr mae'r amser a gymerir i ddelio â cheisiadau wedi lleihau'n sylweddol hefyd. Oherwydd hynny erbyn diwedd Ionawr roedd y brifysgol wedi gallu rhoi ddwywaith cymaint o gynigion ag ar yr un adeg y llynedd.

Gyrru'r Economi Gwybodaeth

Mae'n ymddangos bod pob gwleidydd yn hoff o'r ymadrodd 'yr Economi Gwybodaeth' ond sut mae rhywun yn gyrru'r Economi Gwybodaeth?

Yn ddiweddar rhannodd yr Athro Sian Hope, Dirprwy Is-Ganghellor Trosglwyddo Gwybodaeth a Menter ei barn ar 'Wyddoniaeth a Thechnoleg fel Gyrwyr yr Economi Gwybodaeth' pan wahoddwyd i annerch Cynhadledd 'Cyfleoedd Economaidd Newydd yng Ngogledd Orllewin Cymru' a drefnwyd gan Gangen Gogledd Cymru o'r Sefydliad Materion Cymreig.

Roedd yr Athro Hope yn gallu cyfeirio at y project llwyddiannus iawn sy'n cael ei gynnal gan Technium CAST, syniad a grëwyd ac a gychwynnwyd yn wreiddiol gan staff ym Mangor.



Bellach mae'r Brifysgol yn bartner yn y Technium ym Mharc Menai sy'n denu cwmnïau TG newydd a chyffrous i'r ardal. Yn ogystal â lleoliad a chyfleusterau gwych CAST, mae'r ffaith nid yn unig bod arbenigedd academiaidd y Brifysgol o fewn cyrraedd ond hefyd bod pwll o ddarpar weithwyr â sgiliau ac addysg o safon uchel ymysg graddedigion ac israddedigion presennol y Brifysgol yn ysgogiad cryf i gwmnïau sy'n ystyried ymsefydlu yn CAST.

"Mae'r arbenigedd, y wybodaeth, y syniadau a'r gallu mewn prifysgol ymchwil fel Bangor yn gallu ysgogi cwmnïau i symud i'r ardal a defnyddio'r ymchwil i ddatrys problemau," meddai.

Athro Prifysgol Harvard yn ymweld ag Ysgol y Gymraeg



Dr Jerry Hunter o Ysgol y Gymraeg gyda'r Athro Catherine McKenna o Brifysgol Harvard.

Bu'r Athro Catherine McKenna o Brifysgol Harvard yn ymweld ag Ysgol y Gymraeg, Prifysgol Cymru, Bangor yn ddiweddar.

Ym mis Gorffennaf 2005 penodwyd yr Athro McKenna yn *Margaret Brooks Robinson Professor of Celtic Languages and Literatures* ym Mhrifysgol Harvard, yn olynydd i'r Athro Patrick Ford. Bu ei hymweliad â Bangor yn gyfle i gadarnhau ymhellach y berthynas arbennig sydd eisoes yn bodoli rhwng y ddwy ganolfan academiaidd hyn. Yn ystod ei hymweliad, arweiniodd seminar ymchwil a oedd yn tynnu ar arbenigedd academiaidd staff Ysgol y Gymraeg. Trafodwyd 'Marwnad Gruffudd ap Cynan' o waith Meilyr Brydydd, cerdd a gyd-olygwyd gan yr Athro Peredur Lynch – aelod presennol o Ysgol y Gymraeg - a'r diweddar Athro J.E. Caerwyn Williams – un o gyn-benaethiaid Adran y Gymraeg ym Mangor.

Trwy'r cyswllt hwn cafodd Bangor gynnal ei digwyddiad i Alumni Gogledd America yn Harvard yn hydref 2005. Mae'r brifysgol wedi croesawu nifer o fyfyrwyr ôl-raddedig o Harvard ac mae cynlluniau ar y gweill i anfon myfyrwyr o Fangor i Harvard yn dyfodol.



DAU LANSIAD I BARTNERIAETH BWYSIG

Yn y Lansiad yn San Steffan gwelir, o'r chwith i'r dde: Malcolm Wicks AS (Gweinidog Gwyddoniaeth ac Arloesedd), yr Athro Noel Lloyd a'r Athro John Farrar, yn cynrychioli Aberystwyth a Bangor, Mark Williams AS (Ceredigion) a Mrs Betty Williams AS (Conwy).

Mae'r Bartneriaeth Ymchwil a Menter Mrhwng prifysgolion Aberystwyth a Bangor bellach wedi ei lansio'n swyddogol yng nghartref Llywodraeth Cynulliad Cymru yn Adeilad y Senedd yng Nghaerdydd a hefyd yn San Steffan. Daeth cynulleidfa dda ynghyd i'r ddau lansiad, gan gynnwys Aelodau Cynulliad /Aelodau Seneddol ynghyd ag amrywiaeth eang o weision sifil, academyddion ac unigolion eraill a diddordeb.

Wrth sôn am y lansiad swyddogol yn y Cynulliad, meddai Jane Davidson, y Gweinidog Addysg a Dysgu Gydol Oes a Sgiliau: "Mae'r Bartneriaeth Ymchwil a Menter yn ddatblygiad cyffrous ac arwyddocaol iawn i'r prifysgolion. Yn ogystal â manteision academiaidd, bydd yn hyrwyddo datblygiad cymdeithasol a diwylliannol Cymru.

Rwy'n sicr y bydd y bartneriaeth yn un hynod werthfawr".

Meddai Mrs Betty Williams MP a oedd yn gyd-gyfrifol am drefnu'r lansiad yn San Steffan: "Datblygiad cyffrous, uchelgeisiol a phwysig yw hwn yn hanes y ddau sefydliad. Mae'r Bartneriaeth newydd yn hwb sylweddol i alluoedd ymchwil a datblygu'r Deyrnas Unedig mewn nifer o feysydd." Meddai'r Is-Ganghellor, yr Athro Merfyn Jones, "Bydd y Bartneriaeth Ymchwil a Datblygu'n hybu galu'r ddwy brifysgol i gystadlu'n academiaidd ar lefel fyd-eang, a thrwy adeiladu cysylltiadau cynaliadwy gyda'r sector breifat a'r lywodraeth, bydd yn creu amgylchedd busnes bywiog a fydd yn cyfrannu at yr amgylchedd cymdeithasol a diwylliannol o fewn Cymru a'r Deyrnas Unedig."

COFEB KYFFIN

Mae'r Brifysgol yn bwriadu codi cofeb Mer cof am Syr Kyffin Williams, Cymrawd Anrhydeddus y Brifysgol, a fu farw ym mis Medi. Yn ei Ewyllys, gada-wodd Syr Kyffin nifer o eitemau gan gynnwys llyfrau, dodrefn, set lestri cinio a nifer o weithiau celf (a oedd eisoes ar fenthyg) i'r Brifysgol.

HEN LUNIAU

Oes gan unrhyw un hen luniau o weith-gareddau myfyrwyr y gellir eu defnyddio ar stondin PCB yn yr Eisteddfod? Os oes, fydddech chiystal â chysylltu â Rachel Davies, Swyddog Alumni e-bost: Rachel.davies@bangor.ac.uk est 8332.

O.B.E. I GYN- AELOD STAFF

Dyfarnwyd OBE i Charlotte Williams yn Rhestr Anrhydeddau'r Flwyddyn Newydd am 'wasanaethau i leiafrifoedd ethnig a chyfle cyfartal yng Nghymru'. Cyn i Charlotte symud o Fangor i brifysgol Keele ym mis Ionawr 2006, bu'n Uwch Ddarlithydd ac yn Gyfarwyddwr Astudiaethau Gwaith Cymdeithasol a Pholisi Cymdeithasol yn Ysgol Gwyddorau Cymdeithas Prifysgol Bangor. Mae'n cydnabod bod llawer o'i gwaith ym maes gwasanaethau cyhoeddus wedi cael ei wneud yn ystod y 13 mlynedd y bu'n gweithio ym Mhrifysgol Bangor. Mae hi'n dal i fyw yn Llandudno, yn cadw mewn cysylltiad agos gyda'i chydweithwyr ym Mangor, ac yn gwneud ei gwaith ymchwil yng Nghymru.

Mae Charlotte wedi gweithio llawer gyda sefydliadau polisi cyhoeddus yng Nghymru. Hi yw Cadeirydd Grŵp Tasg Llywodraeth y Cynulliad ar Strategaeth Tlodi Plant Cymru ac mae'n aelod o Grŵp Llywio'r Gyfarwyddiaeth Cymunedau sy'n gwerthuso Strategaeth Gwrth-Dlodi Cymunedau'n Gyntaf. Mae hefyd yn aelod o Bwyllgor Cynghori Cenedlaethol y Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol.

AROLWG STAFF

Cafodd pob aelod staff Holiadur Straen Cysylltiedig â'r Gweithle gan yr Uned Iechyd a Diogelwch Galwedigaethol oedd yn gofyn barn staff am wahanol agweddau ar eu hamodau gwaith a sut mae'r Brifysgol yn llwyddo i reoli straen cysylltiedig â'r gweithle. Cafwyd ymateb da iawn. Llenwodd 45% o'r staff yr holiaduron ac ar y cyfan roedd y canlyniadau'n gadarnhaol. Yn dilyn y gwaith hwn bydd astudiaeth bellach yn cael ei chynnal gan ymgynghorydd allanol mewn croestoriad o Ysgolion ac Adrannau Canolog. Unwaith bydd yr arolwg wedi ei gwblhau bydd adroddiad arno yn y Newyddlen.